Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Parhad a Newid – Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru: Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru**

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am y gwaith a wnaed gan dri sefydliad blaenorol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am rai o'r swyddogaethau a gyflawnwyd cyn hyn gan Lywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.
Rydym yn gweithio gyda chymunedau Cymru i warchod pobl a'u cartrefi hyd eithaf ein gallu rhag achosion amgylcheddol fel llifogydd a llygredd. Rydym yn darparu cyfleoedd i bobl ddysgu, defnyddio ac elwa ar adnoddau naturiol Cymru.

Rydym yn ymroi i gefnogi economi Cymru trwy alluogi defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gefnogi swyddi a menter. Rydym yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac ystyried cyfyngiadau amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau pwysig.

Rydym yn gweithio i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb ac yn gweithio tuag at sicrhau bod yr amgylchedd a'n hadnoddau naturiol yn fwy gwydn ac yn gallu dygymod â newid yn yr hinsawdd a mathau eraill o bwysau.

Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i Adolygiad Llywodraeth Cymru o'i pherthynas â'r trydydd sector: *Parhad a Newid – Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru*. Mae'r Trydydd Sector yn gwneud cyfraniad allweddol o ran rheoli a defnyddio'r amgylchedd yn gynaliadwy yng Nghymru, ac mae ei gymorth yn hollbwysig i Gyfoeth Naturiol Cymru, fel sefydliad sector cyhoeddus, er mwyn ein helpu i ddarparu ein swyddogaethau a'n gwasanaethau ym mhob cwr o Gymru ac ymestyn hyd a lled ein gwaith, sy'n hanfodol i gynnal economi, iechyd a lles Cymru, mewn sectorau a chymunedau gwahanol.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i

- hybu twf a datblygiad galluogrwydd y sector ymhellach
- cryfhau cymunedau daearyddol a chymunedau buddiant,
- manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd y sector er mwyn helpu i gynllunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus gwell ac
- annog a chefnogi'r sector i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion.

Rydym hefyd yn croesawu'n fawr y cynigion i gael cysylltiad clir rhwng y Rhaglen Lywodraethu a strategaethau a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru i gytundeb partneriaeth y Trydydd Sector. Dylai hyn helpu i sicrhau bod digon o adnoddau a chymorth ar gael er mwyn cymryd camau i ddarparu'r amcanion allweddol.

**C2. Rydym yn credu bod y pum thema strategol yn ddefnyddiol ar y cyfan**. Fodd bynnag, byddem yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal gweithredu gwirfoddol cyfredol yn ogystal â sicrhau twf a datblygiad y sector. O'n profiad hir ni o weithio gyda sefydliadau'r Trydydd Sector, rydym yn deall pa mor anodd y gall hynny fod, yn enwedig ar gyfer sefydliadau gwirfoddol bach a chanolig, i chwilio'n barhaus am fentrau newydd er mwyn sicrhau cyllid, yn hytrach na chynnal ac atgyfnerthu eu gweithgareddau cyfredol.

Rydym wedi cefnogi'r broses o ddatblygu amrywiaeth o fentrau cymdeithasol sy'n seiliedig ar yr amgylchedd dros y blynyddoedd, ac yn credu ei bod hi'n bwysig i'r Llywodraeth bwysleisio a chydnabod rôl arloesol a blaenllaw'r Trydydd Sector. Er hynny, byddem yn cynghori ehangu pennawd y thema hon i gynnwys 'cefnogi dulliau amrywiol o ddarparu busnes sy'n sicrhau manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd' gan mai prin yw'r sefydliadau a gefnogwyd gennym sydd wedi'u sefydlu fel modelau menter gymdeithasol, er eu bod wedi darparu'n llwyddiannus yn erbyn y 3 agenda hon.

Yn yr un modd, byddem yn cynghori ehangu'r thema olaf 'personoli gwasanaethau cyhoeddus' er mwyn cwmpasu'n gliriach yr amrywiaeth o 'wasanaethau cyhoeddus' y gall y Trydydd Sector helpu i'w darparu. Yn achos yr amgylchedd naturiol, mae sefydliadau'r trydydd sector yn cyfrannu at bob math o weithgareddau uniongyrchol ac anuniongyrchol nad oes modd gwahaniaethu rhyngddynt o safbwynt eu pwysigrwydd i les dinasyddion a chymunedau: gall enghraifft o weithgaredd 'darparu gwasanaeth' uniongyrchol gynnwys cynnal sesiynau dysgu neu hamdden awyr agored ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd; ac enghraifft o weithgaredd anuniongyrchol na ellir ei bersonoli ac sydd eto'n cael dylanwad aruthrol ar fywydau unigolion fyddai adfer ucheldir sydd yn ei dro'n helpu i reoli llif dŵr a lleihau peryglon llifogydd ymhellach i lawr yr afon.

Fel themâu ychwanegol, byddem yn awgrymu cynnwys ymrwymiad gan y Llywodraeth sy'n annog datblygu a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddol yn yr holl gyrff cyhoeddus a ariennir ganddi, a gweithio gyda chyrff cyhoeddus i hyrwyddo a chefnogi'r broses o gyflwyno'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, er mwyn sicrhau cydweithredu gwell rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus a helpu i roi llais i ddinasyddion yn y broses o wneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae chwilio am gysylltiadau rhwng y sector preifat a'r trydydd sector a'u hannog yn thema ddefnyddiol arall y gellid ei chynnwys.

**C5. Rydym yn croesawu rôl sefydliadau seilwaith o ran cefnogi'r sector, codi safonau, rhannu gwybodaeth a chanllawiau, datblygu'r sail dystiolaeth, rhannu dysgu a hyfforddiant** Fel sector cyhoeddus, rydym yn dibynnu ar sefydliadau seilwaith i'n hysbysu am y datblygiadau diweddaraf sy'n berthnasol i'r trydydd sector a'u rhannu gyda ni a sefydliadau eraill rydym yn eu cefnogi.Rydym yn dibynnu'n arbennig arnynt er mwyn helpu i hybu twf yn nifer y bobl sy'n gwirfoddoli yn y sector amgylchedd a darparu ffynhonnell barod o gyngor a chymorth hawdd a hygyrch i sefydliadau cymuned ar agweddau ar lywodraethu, cyllido a chynaliadwyedd.

**C6 a C7. Nid ydym mewn sefyllfa i ymateb yn fanwl i gwestiwn 6, ond byddem yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod digon o gyllid ar gael i sefydliadau seilwaith er mwyn eu galluogi i gyflawni'n effeithiol y rolau pwysig ac unigryw a amlinellir uchod, a'u galluogi i weithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.** Credwn bod lle i gryfhau'r berthynas waith rhwng sefydliadau seilwaith, eu sefydliadau aelodau cyfansoddol, sefydliadau ymbarél sector benodol (fel Cyswllt Amgylchedd Cymru) a sefydliadau'r sector cyhoeddus ar lefelau daearyddol gwahanol, fel sy'n briodol, er mwyn cynyddu cyfleoedd cydweithredu a chynyddu atebolrwydd hyd at lefelau cenedlaethol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amheus o'r cynnig i gyflwyno Cronfa Arloesedd y Trydydd Sector am ddau reswm. Yn gyntaf, gallai sefydlu cronfa o'r fath arwain at doriad pellach yn y cyllid sydd ar gael i gynnal gwasanaethau cymorth craidd y Trydydd Sector sy'n werthfawr a hollbwysig. Yn ail, ac fel y soniwyd yn flaenorol, rydym yn ymwybodol, o'n profiad ein hunain o gefnogi darpariaeth y trydydd sector, o'r baich sy'n cael ei roi ar sefydliadau bach a chanolig pan fyddant yn cael eu gorfodi i gyflwyno rhywbeth 'newydd' a
'gwahanol' byth a beunydd yn lle cynnal yr hyn sydd eisoes yn llwyddiannus. Byddem hefyd yn poeni y byddai cwmpas y gronfa yn gyfyngedig – mae'r ddogfen yn cyfeirio at y ffaith mai dim ond i ddatblygu darpariaeth gwasanaeth ar y cyd ar lefel ranbarthol y byddai'r gronfa'n berthnasol.

Fodd bynnag, petai Cronfa Arloesedd yn cael ei sefydlu, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell bod cwmpas y gronfa yn caniatáu ar gyfer pwyslais ar arloesedd mewn cyd-destunau gwahanol, ac y dylai gynnwys y canlynol:

(a) **Bod elfen o'r arian yn mynd tuag at arloesi a chreu mentrau a swyddi ar lefel gymunedol.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi treialu cynllun o'r enw *Cymunedau a Natur* (CAN). Cafodd ei ariannu fel prosiect strategol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Llywodraeth Cymru a dylai gael ei gwblhau yn fuan yn 2014. Un o amcanion CAN yw sbarduno creu mentrau sy'n seiliedig ar fwynhad ymwelwyr o dreftadaeth naturiol Cymru, yn dwristiaid a phobl leol. Mae syniadau arloesol a gyflwynwyd gan sefydliadau'r trydydd sector a gafodd gyllid CAN wedi creu argraff ar Cyfoeth

Naturiol Cymru. Mae hyn wedi dangos bod sefydliadau'r trydydd sector yn y maes amgylcheddol
yn gallu elwa'n economaidd ar yr asedau amgylcheddol sydd ar garreg eu drws, gyda'r cymorth a'r ysgogiad cywir. Mae cryn botensial i ehangu'r dull hwn, er enghraifft drwy chwilio am atebion arloesol ychwanegol i alluogi dysgu polisi drwy'r Gronfa Arloesedd a awgrymir yn y papur ymgynghori.

(b) **Cynnwys grwpiau dan anfantais, trwy gymorth y trydydd sector, mewn gweithgareddau prosiect sydd â'r nod o gymell datblygiad ac adfywiad economaidd**. Un o ofynion model CAN yw i bob prosiect sy'n chwilio am gyllid gyflwyno darpariaethau ar gyfer cynnwys grwpiau dan anfantais yng ngweithgareddau'r prosiect. (Fel arfer, mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant mewn swydd, lleoliadau gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli). Mae sefydliadau'r trydydd sector wedi dangos bod ganddynt lu o syniadau da yn y cyd-destun hwn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y byddai cymorth trwy gyfrwng y Gronfa Arloesedd i sectorau'r trydydd sector weithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r sector cyhoeddus yn dwyn ffrwyth o ran datblygu dysgu a dulliau newydd ar gyfer y ddau sector.

c) **Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried bod lle i feithrin defnydd y trydydd sector o ystâd CNC gyda'r nod o greu manteision economaidd i gymunedau lleol, yn bennaf creu mentrau a swyddi cysylltiedig yn lleol**. Gall cymorth o'r Gronfa Arloesedd i gyrff y trydydd sector fod yn sbardun gwerthfawr i ddatblygu gweithgareddau o'r fath. Byddai CNC yn croesawu trafodaeth er mwyn archwilio'r dull hwn ymhellach yn gysylltiedig â defnyddio model CAN a nodwyd ym mharagraff (a) uchod.

**C9/C10/C11. Credwn bod lle i wella'r modd y mae rhwydwaith y Cyngor Partneriaeth Trydydd Sector (CPTS) yn gweithio** Mae arolwg anffurfiol sydyn ymhlith rhai o sefydliadau'r trydydd sector yr ydym wedi'u cefnogi yn y gorffennol yn awgrymu nad oes fawr o ymwybyddiaeth o fodolaeth eu rhwydwaith perthnasol na'r CPTS. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod ffrydiau gwaith yn cyfathrebu'n effeithiol â'u sefydliadau cyfansoddol a'u bod nhw, a'r CPTS yn gyffredinol, yn cynrychioli barn a safbwyntiau amrywiaeth eang o sefydliadau'r trydydd sector. Mae angen i'r CPTS fod yn atebol i'r amrywiaeth lawn o sefydliadau a gynrychiolir ar y 25 rhwydwaith a gweithredu fel cynghorydd ac eiriolwr effeithiol ar ran y trydydd sector wrth ymdrin â Llywodraeth Cymru. Mae angen iddo wneud cyfraniad cryfach fel galluogwr hefyd er mwyn hwyluso cysylltiadau a chyfraniad gwell gan amrywiaeth eang o sefydliadau'r trydydd sector, nid yn unig rhai sydd â mwy o alluogrwydd i gymryd rhan mewn gwaith strategol yn y Trydydd Sector oherwydd eu statws cenedlaethol neu DU gyfan.

Credwn ei bod hi'n bwysig cael deialog effeithiol rhwng y Trydydd Sector a Gweinidogion perthnasol. O gofio hyd a lled y meysydd y mae sefydliadau'r Trydydd Sector yn gweithio ynddynt, mae'n bwysig bod gan y sector gysylltiad ag amrywiaeth o Weinidogion, ar draws Llywodraeth Cymru i gyd, yn dibynnu pa faterion sydd angen eu trafod. Mae

darpariaeth gan y trydydd sector yn **ffordd** o weithio ac felly'n berthnasol i bob sector o'r Llywodraeth. Byddem yn cefnogi'r syniad o Lywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r egwyddor o gynnal cyfarfodydd effeithiol rhwng y Trydydd Sector a'r Gweinidogion perthnasol, ac yn awgrymu y dylai'r patrwm o gyfarfodydd a'u cynnwys gael eu pennu yn ôl yr angen.

Rydym yn credu y gallai fod yn bryd adolygu effeithiolrwydd cyrff ymbarél eraill sy'n ymwneud â sectorau penodol – megis Cyswllt Amgylchedd Cymru - a thrwy hynny, yn egluro eu cysylltiadau â'r CPTS, y rhwydweithiau a'r sefydliadau seilwaith, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o gyfathrebu'n fwy effeithiol â Llywodraeth Cymru trwy weithio'n agosach.

**C12. Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn pennu canlyniadau hirdymor ar gyfer datblygu cynaliadwy sy'n ennyn hyder ac yn caniatáu i sefydliadau'r Trydydd Sector ddatblygu a chynnal amrywiaeth o fentrau ar raddfeydd gwahanol yn unol â'u profiad a'u galluogrwydd**. Mae gwaith gwirfoddol ar raddfa fach yn rhan hollbwysig o fywyd y gymuned ym mhob cwr o Gymru, ac mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn cydnabod cyfraniad hynny trwy gyflwyno strwythurau cymorth priodol, cynlluniau grantiau syml ac adnoddau effeithiol.

**C13. Credwn y gall fod potensial i gynnwys y Trydydd Sector yn llawnach yng ngwaith Byrddau Gwasanaethau Lleol, Cynlluniau Integredig Sengl a dulliau eraill, yn hytrach na chreu strwythurau newydd**. Rydym yn cydnabod yr her o gynnwys sector mor wahanol yng ngweithgareddau Byrddau Gwasanaethau Lleol, ond yn cytuno â chynigion y ddogfen y byddai'n werth ystyried cryfhau dimensiwn rhanbarthol CPTS er mwyn creu dull effeithiol o sicrhau bod y Trydydd Sector yn cyfrannu fwyfwy at waith rhanbarthol fel y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Efallai y dylid ystyried hyn cyn sefydlu compactau cyfreithiol rhwng sefydliadau'r Trydydd Sector ac Awdurdodau Lleol, gan nad yw'r ddogfen ymgynghori yn cyflwyno tystiolaeth gref ar gyfer sefydlu'r olaf o'r rhain.

**C15: Mae CNC yn credu y dylai cynigion y papur ymgynghori sy'n ymwneud â chydnerthedd gynnwys cynigion i gefnogi sefydliadau'r trydydd sector i feithrin mentrau newydd sy'n deillio o gyfalaf dynol ac amgylcheddol o fewn cymunedau**. (Gweler yr ateb i C7 uchod ynglŷn â defnyddio model CAN yn y cyd-destun hwn).
Yn ogystal â chydnerthedd economaidd, mae CNC yn credu hefyd bod cymunedau angen cymorth i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o werth yr adnoddau amgylcheddol sydd ar garreg eu drws. Mae gan sefydliadau'r trydydd sector gyfraniad gwerthfawr yn hyn o beth.
Mae CNC yn credu hefyd bod angen ehangu'r ymwybyddiaeth o gydnerthedd ymhlith cymunedau i gynnwys cydnerthedd amgylcheddol, gan gynnwys peryglon llifogydd a newid yn yr hinsawdd. Mae ymwybyddiaeth o ystyr yr elfennau uchod ar lefel *gymunedol* yn hollbwysig er mwyn newid ymddygiad cymdeithas a thwf economaidd wedi'i wreiddio'n lleol. Ac mae datblygiad cymunedau gwirioneddol

gydnerth a chynaliadwy yn dibynnu ar y sylfeini hyn.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y pwyntiau a godwyd, ffoniwch Elinor Gwynn ar 01248 38 7301 neu e-bostiwch elinor.gwynn@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Yn gywir

Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio